



## Datganiad o Drosoglwyddo Sbesimen Atodiad A drwy Rodd neu Fenthyciad Diamod

Y Gwasanaeth Trwyddedu a Chofrestru Bywyd Gwylt, Horizon House, Deanery Road, Bryste, BS1 5AH.

E-bost: [wildlife.licensing@apha.gov.uk](mailto:wildlife.licensing@apha.gov.uk)

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i ddatgan bod sbesimen sydd wedi'i restru yn Atodiad A i Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 338/97 (fel y'i cymathwyd yng nghyfraith y DU) wedi cael ei gaffael drwy rodd neu fenthyciad diamod a lle na ddigwyddodd unrhyw drafodiad masnachol.

At ddibenion y datganiad hwn:

- ystyr 'rhodd' neu 'benthyciad diamod' fydd trosglwyddo eiddo'n wirfoddol i berson neu endid neu fenter arall, heb unrhyw drafodiad masnachol, taliad na chydabyddiaeth arall o unrhyw fath.
- ystyr 'trafodiad masnachol' fydd cyfnewid unrhyw sbesimen, rhan ohono, neu'r hyn sy'n deillio ohono, am fudd neu fantais neu fuddiant ariannol i unrhyw barti lle mae'r budd, y fantais neu'r buddiant hwnnw yn digwydd ar unrhyw adeg (cyn, yn ystod neu ar ôl cyfnewid).
- diffinnir 'taliad' fel: trosglwyddo arian, yr hyn sy'n cyfateb iddo, neu eitemau gwerthfawr eraill o un person i berson arall yn gyfnewid am nwyddau neu wasanaethau a dderbyniwyd.

### Manylion deiliad presennol / newydd y sbesimen

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Dyddiad caffael:

Manylion deiliad blaenorol y sbesimen

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rheswm dros y rhodd

Manylion y sbesimen

(Enw gwyddonol ac unrhyw nodau adnabod fel rhif modrwy gaaedig neu ficrosglodyn, rhif cyfresol neu ddisgrifiad llawn)

Datganiad

Cefais y sbesimen hwn drwy (\*dileu yn ôl yr angen):

\*Rhodd / \*Benthyciad diamod

Datganaf fod y wybodaeth a roddwyd uchod yn gywir.

Llofnod y deiliad blaenorol:

Dyddiad:

**Llofnod y deiliad presennol / Newydd:**

**Dyddiad:**

**Diogelu Data.** Caiff y wybodaeth y mae'r ffurflen hon yn gofyn amdani ei defnyddio at ddibenion monitro cydymffurfedd â darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 338/97 gan y Cyngor a Rheoliad (CE) 865/2006 gan y Comisiwn (fel y'u cymathwyd yng nghyfraith y DU) ac ymchwilio i achosion o dorri'r rheoliadau, ac at y diben hwn, caiff y cyfryw wybodaeth ei throsglwyddo i Cyllid a Thollau EF o dan ddarpariaethau Erthygl 14 o reoliad 338/97. Caiff yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) hefyd drosglwyddo gwybodaeth i'r Heddlu a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt er mwyn casglu a dadansoddi cuddwybodaeth am droseddau bywyd gwyllt posibl. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y defnyddir eich gwybodaeth yma:

[Y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau o Ffawna a Fflora Gwyllt Mewn Perygl: https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-health-agency-privacy-notices/the-convention-on-international-trade-in-endangered-species-of-wild-fauna-and-flora-annex-a-gifting-declaration-privacy-notice](https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-health-agency-privacy-notices/the-convention-on-international-trade-in-endangered-species-of-wild-fauna-and-flora-annex-a-gifting-declaration-privacy-notice) [Atodiad A - hysbysiad preifatrwydd datganiad am rodd - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Bydd eich enw a'ch cyfeiriad hefyd yn cael eu hychwanegu at ein rhestr bostio a byddant yn cael eu defnyddio gan APHA er mwyn anfon cyngor a gwybodaeth berthnasol atoch yn unig. Caiff eich data personol eu prosesu yn seiliedig ar gydsyniad. Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn rhoi cydsyniad i APHA brosesu eich gwybodaeth yn y ffordd a ddisgrifir uchod. Gallwch dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy e-bostio [CITES.UKMA@defra.gov.uk](mailto:CITES.UKMA@defra.gov.uk).

**Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r cyfeiriad ar frig y dudalen.**

### **Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**

Nodir sut rydym yn defnyddio eich data personol yn ein siarter gwybodaeth personol a'n hysbysiadau preifatrwydd:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>

<https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-health-agency-privacy-notices>

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.